Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# Cyllideb Ddrafft: 2020-21

Tachwedd 2019




www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA

0300 200 6565

Cysylltu@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

CynulliadCymru

CynulliadCenedlaetholCymru

Senedd



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# Cyllideb Ddrafft:
2020-2021

Tachwedd 2019

www.cynulliad.cymru

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ...... 6**

**2. Dull Cyllidebol ...... 7**

Capasiti a sefydliad staff ...... 8

Comisiynydd Safonau ...... 9

Tâl Contractwr ...... 9

Cyllidebau Etholiad ...... 10

Costau Cyn Etholiad ...... 10

Costau'r etholiad ...... 10

Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16 – Prydlesi ...... 11

**3. Edrych tua'r dyfodol ...... 13**

Diwygio'r Cynulliad a Newid ei Enw ...... 13

Newid enw ...... 14

Ymestyn yr Etholfraint ...... 14

Y Comisiwn Etholiadol ...... 15

Anghymhwyso ...... 15

Diwygio pellach ...... 16

Brexit ...... 17

**4. Cyflawni ein nodau strategol ... 19**

Darparu cymorth seneddol o’r radd flaenaf ... 19

Deddfwriaeth ... 19

Cyfarfod Llawn a Deisebau ... 20

Archifo ... 21

Ymgysylltu â Holl Bobl Cymru a Hyrwyddo’r Cynulliad ... 21

Gwefan ... 21

Gweithgareddau Ymgysylltu ac Allgymorth ... 21

Defnyddio Adnoddau’n Ddoeth ... 21

Ffenestri newydd ... 22

Gosod drysau tân newydd – cam 2 ... 23

Prosiect Oedi Diogelwch ... 23

**5. Llywodraethu a rheolaeth ariannol ... 25**

**6. Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ... 27**

**7. Cwmpas y gyllideb ... 29**

**Atodiad 1: Trosolwg o'r gyllideb ... 31**

**Atodiad 2: Manylion y Gyllideb ... 33**

**Atodiad 3: Prosiectau ... 36**



# 1. Cyflwyniad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, deddfu ar gyfer Cymru, cytuno ar drethi yng Nghymru, a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Defnyddir cyllideb Comisiwn y Cynulliad i ysgwyddo costau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chostau Cyflogau a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad fel y'u pennir gan y Bwrdd Taliadau annibynnol.

Mae Comisiwn y Cynulliad ("y Comisiwn") yn gwasanaethu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") i helpu i hwyluso ei lwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd cryf, hygyrch, cynhwysol a blaengar a deddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Ei swyddogaeth yw darparu'r staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad i gyflawni'r swyddogaeth hon.

Mae gan Aelodau'r Cynulliad gyfrifoldeb a braint sylweddol wrth gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, deddfu ar gyfer Cymru, cytuno ar drethi ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Swyddogaeth y Comisiwn yw darparu staff a gwasanaethau cymorth arbenigol o safon uchel i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad wedi'u paratoi'n iawn i wneud eu gwaith craffu, deddfu a chynrychioli ac i fodloni disgwyliadau pobl Cymru.

Nodau strategol y Comisiwn ar gyfer y Pumed Cynulliad yw:

1. darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf;
2. ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad
3. defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Mae dogfen Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19 y Comisiwn yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed yn ystod y Cynulliad hwn ac mae'r ddogfen gyllideb hon yn tynnu sylw at y meysydd ffocws sy'n weddill ar gyfer blwyddyn olaf y Pumed Cynulliad, 2020-21. Mae ffigurau dangosol wedi'u cynnwys ar gyfer dwy flynedd gyntaf y Chweched Cynulliad hefyd.

# 2. Dull Cyllidebol

Mae'r dull cyllidebol ar gyfer 2020-21 yn gyson â'r hyn a nodwyd yn nogfen gyllideb 2019-20 ar gyfer cyllidebau di-dâl a chronfeydd prosiect.

Mae'r cysylltiad uniongyrchol â symudiadau ym Mloc Cymru wedi'i ddileu bellach yn unol â'r canllawiau a ddarperir yn Natganiad Egwyddorion y Pwyllgor Cyllid. Mae'r gyllideb hon yn dryloyw, yn ddarbodus ac wedi'i gosod yng nghyd-destun y sefyllfa cyllido ariannol hirdymor yng Nghymru.

Mae'n ystyried gofyniad cyllidebol y Comisiwn ar gyfer y tair blynedd ariannol sydd i ddod a sut y mae'r Comisiwn yn blaenoriaethu ei adnoddau i sicrhau nad yw gwasanaethau'n cael eu peryglu.

Mae'r Comisiwn yn gweithio i gylch cynllunio tair blynedd ar gyfer prosiectau er mwyn blaenoriaethu dyraniad y Gronfa Prosiect. Rheolir hyn gan y Bwrdd Gweithredol sy'n cadw goruchwyliaeth o'r holl geisiadau am arian.

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2020-21 yw £61.052 miliwn ac mae'n darparu ar gyfer:

- gwariant o dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn (y gyllideb weithredol);
- cronfa prosiect;
- dibrisiant
- y gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Cyflog a Lwfansau Aelodau; a
- y ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn yr Aelodau o dan bennawd Gwariant a Reolir yn Flynyddol Trysorlys EM.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys rhagamcanion ariannol ar gyfer 2020-21 a dwy flynedd gyntaf y Chweched Cynulliad. Mae dau brosiect arwyddocaol ar y gorwel ar gyfer blynyddoedd cynnar y Chweched Cynulliad a allai olygu gwyro oddi wrth y niferoedd a ragwelir.  Y prosiectau hyn yw:

- ailosod y ffenestri yn adeilad Tŷ Hywel sy'n 28 oed sy’n agos at 'ddiwedd oes gwasanaeth' ac yn dangos arwyddion o fethiant erbyn hyn
- disodli'r feddalwedd cefnogi deddfwriaeth y disgwylir iddo fod yn brosiect sy'n cael ei redeg ar y cyd â Llywodraeth Cymru.

Mae costau dangosol y ddau yn sylweddol ac er y bydd y Comisiwn yn ceisio ariannu cymaint o'r prosiectau hyn â phosibl o'r gyllideb weithredol, ond gyda blaenoriaethau presennol a newydd, efallai na fydd yn bosibl cyflawni'r prosiectau hyn heb ddarpariaeth ychwanegol yn y gyllideb.

## Capasiti a sefydliad staff

Wrth i’r Comisiwn gyrraedd ei ben-blwydd yn 20 oed, mae wedi gweld twf cyson a sefydlog yn ei sefydliad staffio yn unol â phwerau a dylanwad cynyddol y Cynulliad ers ei sefydlu ym 1999.

Yn ystod 2017, cynhaliwyd adolygiad capasiti cynhwysfawr a chyflwynwyd cap sefydlu o 491 o swyddi. Arweiniodd hyn at ailddyrannu nifer sylweddol o swyddi gwag (trwy drosiant) i fodloni blaenoriaethau newydd, yn bennaf i recriwtio clercod a staff cyfreithiol i gefnogi gwaith Pwyllgorau wrth ystyried goblygiadau Brexit.  Yn 2019, cytunodd y Comisiwn i gynyddu nifer y swyddi sefydledig o 491 i 501, eto i fodloni gofynion paratoadau Brexit.

Mae'r Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Arwain yn cynnal adolygiadau rheolaidd o nifer y swyddi sefydledig yn unol â gwaith â blaenoriaeth. Wrth i swyddi gwag godi, ystyrir swyddi i'w hailddyrannu er mwyn lleihau'r pwysau i geisio cynnydd cyffredinol pellach yn y sefydliad. Rhyddhaodd Cynllun Ymadael Gwirfoddol 2019 24 aelod o staff ac mae sawl swydd wedi eu rhyddhau’n barhaol i’w hailddyrannu.

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i weithio'n rhagweithiol er mwyn rheoli adnoddau a chostau cyflog cysylltiedig, er enghraifft, edrych ar sut y gellir defnyddio prentisiaethau i gefnogi gwasanaethau, naill ai trwy ddarparu cefnogaeth ar sail gylchol neu trwy recriwtio prentis i wasanaeth penodol sydd wedi'i weithredu yn ein gwasanaeth TGCh.

Er gwaethaf y pwysau a'r newidiadau hyn, mae'r gyllideb ar gyfer staff wedi'i chynnal fel y'i cyflwynwyd yn nogfen 2019-20. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 1.9%; y swm a ragwelir ar gyfer dyfarniad tâl cysylltiedig â mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. O ystyried y swyddi ychwanegol, bydd hyd yn oed mwy o ysgogiad i'r Comisiwn reoli staff yn rhagweithiol ac o fewn y gyllideb.

Cafwyd cynnydd o £965,000 ar y cyfraniadau i gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yng nghyllideb atodol gyntaf 2019-20. Mae'r £965,000 hwn wedi'i gynnwys yn y costau staffio ar gyfer 2020-21 hefyd. Yn ogystal, mae'r cynnydd pensiwn hwn yn arwain at sgil-effaith ar gostau staff yr heddlu yn Nhŷ Hywel ac o ganlyniad i hynny, mae'r gyllideb ddiogelwch wedi cynyddu.

## Comisiynydd Safonau

Bu cynnydd yn y gyllideb staffio ar gyfer 2020-21 o ganlyniad i lwyth gwaith cynyddol y Comisiynydd Safonau. Ers 2018, mae dau aelod o staff y Comisiwn wedi'u dynodi'n adnodd staff pwrpasol ar gyfer y Comisiynydd Safonau. Yn ystod 2019-20 mae'r swyddi hyn yn cael eu hariannu o arbedion swyddi gwag o ganlyniad i'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol. Mae'r ddwy swydd hyn y tu allan i sefydliad 501 y Comisiwn.

## Tâl Contractwr

Mae'r Comisiwn wedi penderfynu cynyddu'r isafswm tâl fesul awr ar gyfer staff dan gontract (staff arlwyo a glanhau). Ar hyn o bryd maent yn cael eu talu cyfradd gyfredol y Sefydliad Cyflog Byw sef £9 yr awr a bydd hyn yn cael ei gynyddu yn ystod 2019-20 i £10 yr awr. Mae hyn yn cyfateb i'r gyfradd isaf a delir i staff y Comisiwn. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y llinellau cyllideb arlwyo a glanhau.

## Cyllidebau Etholiad

Mae'r broses o fynd trwy etholiad Cynulliad yn arwain at gostau unigryw untro sy'n cael eu hysgwyddo mewn cysylltiad â'r pontio rhwng Cynulliadau.

### Costau Cyn Etholiad

Yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad, bydd y costau hyn yn ymwneud ag ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth, paratoi ar gyfer y costau agor swyddogol a llety. Mae'r gyllideb hon wedi'i phennu, sef £500,000, yr un lefel â chostau cyn etholiad 2015-16.

### Costau'r etholiad

Yn dilyn yr etholiad, bydd angen i'r Comisiwn dalu grantiau ailsefydlu i'r Aelodau hynny nad ydynt yn cael eu hail-ethol a thaliadau diswyddo i'w staff pan fyddant yn cwrdd â'r meini prawf fel y nodir ym Mhenderfyniad y Bwrdd Taliadau. Amcangyfrifir cyllideb o £2.5 miliwn ar gyfer y costau hyn ac mae wedi'i chynnwys yn y ffigurau drafft ar gyfer 2021-22. Mae'r arian hwn wedi'i neilltuo ar gyfer costau a ysgwyddir yn gyfan gwbl ac yn unigryw mewn cysylltiad â'r etholiad, gan gynnwys darparu offer a chyfleusterau ar gyfer y garfan newydd o Aelodau.

O ystyried natur anrhagweladwy canlyniadau'r etholiad, byddai'n cael effaith negyddol ar allu'r Comisiwn i gynllunio gwariant yn arwain at etholiad ac yn ystod blwyddyn etholiad pe byddai'n rhaid i'r Comisiwn dalu'r costau hyn o'r gyllideb weithredol. Am y rheswm hwn, mae'r gyllideb yn nodi symiau ar wahân i dalu'r costau hyn ym mlynyddoedd ariannol 2020-21 a 2021-22, sef £0.5miliwn a £2.5 miliwn yn y drefn honno. Bydd y cyllidebau hyn yn cael eu neilltuo a dychwelir unrhyw danwariant i Gronfa Gyfunol Cymru.

## Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16 – Prydlesi

Mae'n ofynnol i'r Comisiwn fabwysiadu Safon Gyfrifyddu newydd, Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), 16 a fydd yn dod i rym o'r flwyddyn ariannol 2020-21 ymlaen. Mae'r safon newydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrif am bob prydles mewn modd cyson. Yn flaenorol, ni chydnabuwyd prydlesi a ddosbarthwyd fel "prydlesi gweithredu" ac adroddwyd eu bod "oddi ar y fantolen".

Mae'r newid hwn yn effeithio'n bennaf ar y modd o ymdrin â phrydles adeilad Tŷ Hywel ym Mae Caerdydd sy'n gartref i fwyafrif staff y Comisiwn. Ar hyn o bryd nid yw Tŷ Hywel yn cael ei ddosbarthu yn ased ac nid yw'n cael ei ddibrisio.  O fis Ebrill 2020, pan fydd yn cael ei gydnabod fel ased hawl i ddefnyddio, bydd yn cael ei ddibrisio dros gyfnod y brydles a ragwelir yn y dyfodol.

Bydd IFRS 16 yn arwain at gynnydd yn y taliadau dibrisiant a chyllid llog yng nghyllideb y Comisiwn. Caiff y taliadau hyn eu gwrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad yn y gost rhentu swyddfa a ddangosir yn y gyllideb.

Bydd cyllideb gyffredinol y Comisiwn yn cynyddu.  Fodd bynnag, ni fydd y newidiadau hyn yn cynyddu'r gofyniad arian parod gan Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd yr un faint o gost rhentu arian parod yn cael ei hysgwyddo ond bydd y cyflwyniad cyfrifyddu yn wahanol.  Ychwanegwyd colofnau ychwanegol at y tablau yn Atodiad 1 i ddangos y symudiad yng nghyllideb y Comisiwn cyn ac ar ôl addasiadau IFRS 16.



# 3. Edrych tua'r dyfodol

Mae'r meysydd gwaith sy'n dominyddu'r agenda ar gyfer y blynyddoedd nesaf wedi eu hymarfer yn dda ac maent yn arwyddocaol o ran lefel yr adnoddau.

Mae'r Comisiwn yn parhau i wneud cynnydd o ran Diwygio'r Cynulliad ac ar adeg ysgrifennu, mae Brexit yn sicr yn dal i fod yn fater byw a pharhaus.

## Diwygio'r Cynulliad a Newid ei Enw

Yn dilyn datganoli pwerau sy'n ymwneud â materion cyfansoddiadol o dan Ddeddf Cymru 2017, mae Comisiwn y Cynulliad wedi cychwyn rhaglen o ddiwygio'r Cynulliad.

Ar 12 Chwefror 2019, cyflwynodd y Llywydd, ar ran y Comisiwn, Fil Senedd ac Etholiadau (Cymru). Ynghyd â'r Bil roedd Memorandwm Esboniadol yn darparu dadansoddiad manwl o'r costau. Mae'r Bil yn ceisio:

- Newid enw'r Cynulliad;
- Ymestyn y fasnachfraint i gynnwys pobl ifanc 16 a 17 oed;
- Gosod dyletswydd ar y Cynulliad i ystyried goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol;
- Addasu'r rheolau ynghylch anghymwyso pobl rhag sefyll ac eistedd fel Aelod Cynulliad;
- Gwneud newidiadau eraill i weithrediad y Cynulliad, a Chomisiwn y Cynulliad.

Pe byddai'r Bil yn cael ei basio, bydd mwyafrif y costau i'w hysgwyddo gan Gomisiwn y Cynulliad yn gysylltiedig â'r tri cyntaf o'r meysydd hyn, a byddant yn digwydd yn bennaf yng nghylchoedd cyllideb 2019-20 a 2020-21. Ni ddisgwylir i'r ddwy elfen olaf arwain at unrhyw gostau gweithredu i'r Comisiwn.

## Newid enw

Mae'r Bil yn nodi y bydd enw'r Cynulliad yn newid ar 6 Mai 2020. Mae cynllunio wedi cychwyn ar gyfer gweithredu'r newid enw, trwy'r Cynulliad a gyda phartneriaid allanol.

Fel yr esboniodd y Llywydd yn ystod craffu Cam 1 ar y Bil, bwriedir defnyddio dull graddol o weithredu, a bydd rhai newidiadau yn cael eu gweithredu ar ddyddiad y Cydsyniad Brenhinol, rhai ar y dyddiad a bennwyd ar gyfer y newid enw, ac eraill i gyd-fynd ag etholiad cyffredinol Cymru 2021. Mae'r costau wedi'u cynnwys yng nghronfa prosiect y Comisiwn ar gyfer 2019-20 a 2020-21.

Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Comisiwn yn bwriadu ymgymryd â rhaglen gyfathrebu sy'n seiliedig ar y newid enw, gan ymgysylltu â phobl Cymru ar y trefniadau cyfansoddiadol presennol, a phwerau a chyfrifoldebau'r Cynulliad.

## Ymestyn yr Etholfraint

Mae'r Bil hefyd yn ceisio ymestyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i bobl ifanc 16 a 17 oed. Fel yr amlinellwyd yn y Memorandwm Esboniadol, nod y Comisiwn yw ymgymryd â chodi ymwybyddiaeth a gwaith addysgol ynghylch y newid arfaethedig hwn yn y cyfnod cyn etholiad 2021. Mae cynyddu ymgysylltiad pobl Cymru â'r broses ddemocrataidd yn sbardun allweddol i'r rhaglen ddiwygio, a byddai'r newidiadau a gynigir yn y Bil yn rhoi cyfle i hybu'r nod hwn. Bydd mwyafrif y costau ymgysylltu hyn yn cael eu hysgwyddo yn 2020-21 ac maent wedi'u cynnwys yng nghostau cyn-etholiad neilltuedig y comisiwn.

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gydlynu ei waith codi ymwybyddiaeth ac addysg â Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Etholiadol, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid eraill trwy Grŵp Llywio Adnewyddu Democrataidd Llywodraeth Cymru. Nod y grŵp hwn yw hwyluso cynllunio a chyflawni'r ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ac addysg priodol, gan alluogi cydgysylltu, pan fo hynny'n briodol, rhwng yr ymgyrchoedd unigol. Bydd yn caniatáu defnydd mwy effeithlon o adnoddau, rhannu ymchwil a datblygu terminoleg a rennir. Bydd hyn yn sicrhau ymgysylltiad cyson, cost-effeithiol ac effeithiol, gyda chanlyniadau mwy effeithiol wrth gynnal swyddogaethau a chyfrifoldebau gwahanol y sefydliadau.

Mae'r gwaith a wneir gan y Comisiwn yn debygol o ganolbwyntio ar:

- greu deunyddiau yn y cyfnod ar ôl pasio'r Bil, a chyn bod disgwyl i ddeunyddiau rhanddeiliaid eraill fod ar gael;
- y cyfnod yn union cyn etholiad 2021;
- deunyddiau sy'n canolbwyntio ar swyddogaeth y Cynulliad, ac etholiadau'r Cynulliad.

Bydd y Comisiwn yn ceisio ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl ifanc trwy ei weithgareddau ymgysylltu arferol; trwy ymgyrchoedd hysbysebu ar-lein ac yn y cyfryngau; ac yn anuniongyrchol trwy greu cynnwys ac adnoddau i'w defnyddio gan weithwyr addysg proffesiynol, gweithwyr ieuenctid, ac eraill.

## Y Comisiwn Etholiadol

Yn ystod y ddadl Cam 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, mynegodd y Cwnsler Cyffredinol ei fwriad i ddiwygio'r Bil i wneud y Comisiwn Etholiadol yn atebol i'r Cynulliad mewn cysylltiad ag etholiadau Cynulliad a llywodraeth leol yng Nghymru (gan gynnwys etholiad Cynulliad 2021). Mae manylion diwygiadau o'r fath yn destun trafodaethau parhaus, gan gynnwys a fydd y Comisiwn Etholiadol yn cael ei ariannu am ei waith yng Nghymru trwy gyllideb Comisiwn y Cynulliad, neu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd unrhyw oblygiadau ariannol sy'n codi o welliannau o'r fath yn cael eu nodi mewn fersiwn ddiwygiedig o'r Memorandwm Esboniadol.

Nid yw'r ffigurau a gynhwysir yn y ddogfen gyllideb hon yn cynnwys cyllideb ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau datganoledig yng Nghymru rhwng 2021-22 nac unrhyw gostau cysylltiedig eraill.

## Anghymhwyso

Mae'r Bil yn ceisio gwneud newidiadau i'r rheolau ynghylch anghymwyso pobl rhag bod yn aelod o'r Cynulliad.  Yn y rhan fwyaf o achosion, os caiff ei basio, bydd y Bil yn darparu bod anghymwyso yn codi ar adeg cymryd y llw / cadarnhad, hynny yw, ar ôl i'r Aelod gael ei ethol.  Mae hwn yn newid o'r rheolau cyfredol sy'n gwahardd llawer o unigolion rhag sefyll etholiad.  Mae'r rheolau cyfredol yn rhwystr i annog mwy o bobl i sefyll etholiad.  Bydd nifer bach o ddeiliaid swydd, fel Archwilydd Cyffredinol Cymru yn parhau i fethu â sefyll mewn etholiad. Ni ragwelir y bydd unrhyw gost ychwanegol yn gysylltiedig â'r newid hwn.

## Diwygio pellach

Mae rhaglen ddiwygio'r Cynulliad o reidrwydd yn hyblyg ac yn ymatebol i benderfyniadau'r Cynulliad.

Ysgrifennodd y Llywydd at yr Aelodau ar 10 Mehefin 2019 i'w hysbysu nad oedd y Comisiwn bellach o'r farn ei bod yn bosibl cyflwyno deddfwriaeth yn y Pumed Cynulliad yn gysylltiedig â maint y Cynulliad a sut y caiff Aelodau eu hethol. Mae hyn yn darparu mwy o eglurder o ran costau posibl ail gam y rhaglen ddiwygio ar gyfer 2020-21.

Wedyn, penderfynodd y Cynulliad ar 10 Gorffennaf 2019 fod angen cynyddu nifer yr Aelodau a galwodd am ragor o waith trawsbleidiol i ddatblygu'r materion hyn. Cytunodd y Cynulliad ar 18 Medi 2019 i sefydlu'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, gyda chylch gwaith i ymchwilio i argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad. Caiff y Pwyllgor ei ddiddymu yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar ei adroddiad terfynol. Penderfynodd y Bwrdd Taliadau ar 19 Medi y byddai Cadeirydd y Pwyllgor newydd yn cael ei dalu ar gyflog ychwanegol y Cadeirydd uwch. Caiff y Pwyllgor ei gefnogi drwy ail-flaenoriaethu adnoddau presennol.

## Brexit

Mae'r ansicrwydd ynghylch Brexit yn parhau. Mae cynllunio senarios yn ein helpu i asesu beth allai gwahanol senarios Brexit ei olygu i fusnes y Cynulliad a'r adnoddau sy'n ei gefnogi, yn ogystal ag i'n gwasanaethau corfforaethol. Rydym wedi cynnal asesiadau rheolaidd o effaith Brexit, a oedd yn cynnwys dadansoddiad o effaith Brexit heb gytundeb ar ein contractau gwasanaeth a chyflenwi mawr, gan gynnwys materion yn ymwneud â chaffael, er enghraifft arlwyo, caledwedd TG a chynnal a chadw cyfleusterau. Er nad ydym yn rhagweld problemau yn y cyflenwad, mae costau'n debygol o gynyddu.

Mae cyfreithwyr y Comisiwn yn paratoi adroddiadau ar gyfer y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae'r offerynnau'n ddwyieithog ac mae cyfreithwyr yn eu hadolygu yn nwy iaith swyddogol y Cynulliad. Mae'r offerynnau'n amrywio o ran hyd a chymhlethdod. Ym mlwyddyn y Cynulliad o fis Medi 2018 i fis Gorffennaf 2019, drafftiodd cyfreithwyr y Comisiwn adroddiadau ar 137 o offerynnau statudol 'busnes fel arfer'. Mae'r nifer hwn yn weddol nodweddiadol o'i gymharu â'r rhan fwyaf o flynyddoedd. Yn ogystal, bu cyfreithwyr y Comisiwn yn craffu ar 190 o offerynnau statudol yn ymwneud â Brexit (cynhyrchwyd rhai ohonynt gan Lywodraeth y DU, felly roeddent yn Saesneg yn unig). Mae'r 327 o offerynnau y craffwyd arnynt yn y cyfnod hwn yn fwy na dwywaith y nifer yr adroddir amdanynt fel arfer gan y Cynulliad mewn blwyddyn. Roedd ymadawiad y DU â'r UE hefyd yn gofyn am friffio'r Pwyllgor gan gyfreithwyr ym mhob maes. Darparwyd cefnogaeth i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar Brexit.

Beth bynnag fydd canlyniad Brexit, mae'r Comisiwn yn disgwyl parhau i weld cynnydd yn lefel y gweithgarwch yn ymwneud â deddfwriaeth. Gallai hyn ymwneud â chraffu ar ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru neu ddeddfwriaeth y DU sy'n effeithio ar gymhwysedd y Cynulliad. Bydd Llywodraeth Cymru yn dilyn ei rhaglen ddeddfwriaeth ei hun. Bydd angen i bwyllgorau'r Cynulliad ymateb i'r pwysau hyn a bydd y Bwrdd Gweithredol yn parhau i adolygu capasiti'r staff i reoli adegau prysur.



# 4. Cyflawni ein nodau strategol

Nodir y Gronfa Prosiect ar wahân yn y gyllideb a rhestrir yr eitemau blaenoriaeth a nodwyd i ddefnyddio'r gyllideb hon yn Atodiad 3..

Dewiswyd y prosiectau yn seiliedig ar y blaengynlluniau gwaith a gynhelir gan yr Adrannau TGCh a Rheoli Ystadau a Chyfleusterau a'r rhai sy'n gyson â blaenoriaethau'r Comisiwn am y flwyddyn.

Nid yw'r Comisiwn bellach yn defnyddio unrhyw danwariant o'r gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau er mwyn ariannu prosiectau. Mae'r holl wariant yn cael ei dalu o'r Gronfa Prosiect a nodwyd a'r gyllideb ar gyfer gwariant cyfalaf ynghyd ag unrhyw danwariant cysylltiedig o'r gyllideb weithredol.

Mae'r prosiectau a nodwyd i'w cyflawni yn 2020-21 yn gyson â blaenoriaethau a nodau strategol y Comisiwn.

## Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

### Deddfwriaeth

Mae cefnogi deddfwriaeth yn dasg arbenigol a heriol iawn sy'n defnyddio arbenigedd o bob un o dimau'r Comisiwn, yn benodol clercio, ymchwil, cyfreithiol a chyfieithu.

Yn ogystal â bod â staff arbenigol, cefnogir y broses ddeddfwriaethol gan feddalwedd deddfwriaeth, sy'n rhan hanfodol o seilwaith busnes y Cynulliad. Mae'n galluogi craffu effeithiol ar ddeddfwriaeth.

Mae'r feddalwedd bresennol wedi bod ar waith ers 2010 ac mae'r cynnyrch wedi cyrraedd diwedd ei oes datblygu. Mae'n dod yn fwyfwy anodd a drud i'w gynnal. Oherwydd ei swyddogaeth hanfodol yng ngwaith y Cynulliad, mae angen meddalwedd newydd i sicrhau bod y broses ddeddfwriaethol yn parhau i gael ei chefnogi i safon uchel.

Bydd caffael meddalwedd ddeddfwriaethol bwrpasol yn fuddsoddiad sylweddol. Rhagwelir y bydd unrhyw system newydd yn cael ei chaffael ar y cyd rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Cymru, a'r costau'n cael eu rhannu'n gyfartal. Nododd ymarfer ymgynghori lefel uchel ar y farchnad a gynhaliwyd yn 2017 fod cost

system newydd yn amrywio o £600,000 i £2 miliwn.  Bydd hyn yn dibynnu ar ofynion, a'r gost yn cael ei rhannu rhwng y ddau barti. Dim ond trwy brofion manwl o'r farchnad y datgelir cost gywir.

Felly, gallai amcangyfrif cost y prosiect i'r Comisiwn fod oddeutu £1 miliwn, fesul cam dros ddwy flynedd ariannol. Bydd y costau fesul blwyddyn ariannol yn cael eu cwblhau pan fydd cynllun prosiect ac amserlenni cysylltiedig wedi'u cytuno. Nid yw hyn yn cynnwys costau cefnogi blynyddol yr amcangyfrifir y byddant yn £100,000 y flwyddyn yn ychwanegol.

## Cyfarfod Llawn a Deisebau

Mae'r Comisiwn yn darparu cefnogaeth helaeth, wedi'i theilwra ac o ansawdd uchel i'r Cyfarfod Llawn a’r pwyllgorau. Mae llawer o wasanaethau'r Comisiwn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ddarpariaeth hon gan gynnwys clercio, gweithdrefnol, ymchwil, cyfryngau, cyfreithiol, diogelwch, gwasanaethau ymwelwyr, cyfieithu ar y pryd a chyfieithu testun, cynhyrchu cofnodion gair am air, TG a darlledu.

Mae dau brosiect, sy'n canolbwyntio ar Ddeisebau a’r Cyfarfod Llawn, ar y gweill ar hyn o bryd, wedi'u clustnodi i'w cwblhau yn ystod 2020-21. Y system Ddeisebau yw'r ffordd fwyaf uniongyrchol y gall y cyhoedd godi eu pryderon ac mae'n cael ei ystyried yn borth pwysig ar gyfer ymgysylltu â'r Cynulliad. Mae gwelliannau i systemau deisebau a wnaed gan seneddau eraill wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn ymgysylltiad y cyhoedd. Felly, mae potensial mawr i system Ddeisebau newydd wneud yr un peth.

Mae systemau’r Cyfarfod Llawn yn defnyddio allbynnau o systemau’r Cofnod Trafodion a’r Swyddfa Gyflwyno. Mae'r prosiect y Cyfarfod Llawn yn ystyried sut y gallai'r systemau hynny integreiddio ag arbedion a wneir yn y ddwy broses a chreu gwell allbynnau i'r Aelodau a'r cyhoedd. Gallai hyn ryddhau cryn dipyn o amser staff a dreulir ar hyn o bryd ar drosglwyddo data o systemau eraill, a dileu gwallau dynol.

Bydd y prosiect mewn datblygiadau yn y dyfodol yn ystyried swyddogaeth well i Aelodau ofyn am gael siarad yn y Cyfarfod Llawn, gan ategu o bosibl borth y Swyddfa Gyflwyno y mae Aelodau a'u staff yn ei ddefnyddio'n llwyddiannus..

### Archifo

Mae'r Comisiwn wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru i lunio strategaeth archifo a datblygu catalog ac archif we.

Yn 2020-21 bydd yr elfen 'prosiect' o'r gwaith hwn yn cael ei chwblhau, a bydd trosi tapiau beta yn ddigidol yn cael ei gwblhau gyda chymorth staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru..

## Ymgysylltu â Holl Bobl Cymru a Hyrwyddo'r Cynulliad

### Gwefan

Yn ystod 2019-20, cymeradwyodd y Comisiwn ail-ddylunio gwefan y Cynulliad a'r nod yn y pen draw fydd gwella ei bresenoldeb ar-lein yn helaeth a darparu gwell gwasanaeth cyhoeddus a phrofiad y defnyddiwr i gwsmeriaid mewnol ac allanol.

Bydd mwyafrif y gwaith i uwchraddio'r wefan wedi'i wneud yn ystod 2019-20, a bydd y prosiect yn cael ei gwblhau yn ystod 2020-21.

### Gweithgareddau Ymgysylltu ac Allgymorth

Mae'r Comisiwn yn ystyried ystod o gynigion i gael rhagor o ymgysylltiad gan gymunedau ledled Cymru.

Mae Cronfa'r Prosiect yn cynnwys darpariaeth ddangosol o £250,000.

## Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth

Mae meysydd gwasanaethau Adran Rheoli Ystadau a Chyfleusterau ac Adran TGCh y Comisiwn yn cynnal blaengynlluniau gwaith er mwyn cynllunio ar gyfer eitemau gwariant ar raddfa fawr a chynnal seilwaith ffisegol a thechnegol ei ystad. Fel lesddeiliaid Tŷ Hywel, lle mae mwyafrif ei staff wedi'u lleoli, mae gan y Comisiwn rwymedigaethau o ran cynnal a chadw adeiladwaith yr adeilad.  Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y blaengynllun gwaith.

## Ffenestri newydd

Mae'r ffenestri yn Nhŷ Hywel yn 28 oed. Mae gan ffenestri o'r math hwn oes weithredol ddisgwyliedig o ryw 25-35 mlynedd. Fodd bynnag, mae lleoliad yr adeilad mewn amgylchedd arfordirol wedi arwain at oes weithredol lai a welwyd trwy sawl arolwg annibynnol a gynhaliwyd er 2015. Mae'r arolygon wedi nodi bod y ffenestri mewn cyflwr ffisegol gwael a bod perfformiad thermol yr un mor wael. Mae gan nifer gynyddol o'r ffenestri ddiffygion ac ni ellir cael rhannau newydd i wneud gwaith atgyweirio mwyach.

Yn rhan o'r cytundeb prydles atgyweirio ac yswirio llawn ar gyfer Tŷ Hywel, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynnal a chadw'r adeilad mewn cyflwr da, gan gynnwys gosod eitemau newydd yn lle eitemau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes fel boeleri, drysau a ffenestri. Mae nifer cynyddol y diffygion a'r methiannau a brofwyd ynghyd â pherfformiad sy'n gwaethygu wedi amlygu'r angen i ddatblygu a blaenoriaethu rhaglen fesul cam o osod ffenestri newydd. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad ariannol sylweddol ac mae'n cyflwyno rhai heriau logisteg mawr.

Mae'n parhau i fod yn amcan hirdymor y Comisiwn i sicrhau perchnogaeth ar Dŷ Hywel rywbryd yn y dyfodol a byddai buddsoddiad o'r fath yn gyson â'r amcan hwnnw. Comisiynwyd astudiaeth ddichonoldeb fanwl yn 2019-20. Cost ddangosol ar gyfer y rhaglen gyfan yw £4 miliwn ac mae opsiynau cyllido yn cael eu hystyried. Ar hyn o bryd nid yw'r gost hon yn cael ei hadlewyrchu yn y gyllideb hon.

Mae'r gost ddangosol o newid yr holl ffenestri yn sylweddol a byddai'n anodd ei chynnwys yng nghyllideb weithredol y Comisiwn. Cynhelir astudiaethau dichonoldeb yn 2020-21 i barhau i ystyried yr opsiynau a'r costau ac i ystyried sut y gallai'r prosiect hwn naill ai gael ei gyflwyno'n raddol, neu ei ariannu fel eitem eithriadol untro yng Nghyllideb y Comisiwn yn y Chweched Cynulliad.

## Gosod drysau tân newydd – cam 2

Yn dilyn asesiadau risg tân diweddar ac archwiliadau o'r adeilad, nodwyd bod angen gosod nifer o ddrysau tân newydd yn Nhŷ Hywel, a datblygwyd rhaglen fesul cam i gwblhau'r gwaith hwn dros y tair blynedd nesaf.  Ymgymerir â Cham 2 yn ystod 2020-21.

## Prosiect Oedi Diogelwch

Mae'r bygythiad o derfysgaeth ryngwladol yn parhau i fod yn 'Ddifrifol' ac mae pryderon ynghylch ymosodiadau arfog difäol yn ystyriaeth berthnasol hefyd.  Felly, mae achos busnes cryf i newid cynllun ein dwy fynedfa gyhoeddus er mwyn gwella ein siawns o atal neu ymdopi ag ymosodiad o'r fath trwy ychwanegu haenau o ddiogelwch a fyddai'n oedi darpar ymosodwyr.

Bydd gwaith ar fynedfa’r cyhoedd i’r Senedd yn dod i ben yn ystod 2020-21. Disgwylir i waith ar fynedfa’r cyhoedd i Dŷ Hywel bara dwy flynedd ariannol, 2020-21 a 2021-22.


CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU / NATIONAL ASSEMBLY FOR
DIOGELWCH
SECURITY

# 5. Llywodraethu a rheolaeth ariannol

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad (PASRCC) yn cefnogi'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu o ran eu cyfrifoldebau dros reoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol. Yn rhan o'i swyddogaeth, mae gan PASRCC ddiddordeb mawr yn yr amgylchedd rheolaeth ariannol fewnol ac yn y gwaith o'i oruchwylio.

Ystyrir diweddariadau ar bolisïau cyfrifyddu a'r sefyllfa gyllidebol gan PASRCC ac mae ganddo ddiddordeb mawr hefyd yn yr archwiliad o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Mae aelodau'r Pwyllgor hefyd wedi darparu goruchwyliaeth a her o'r fframwaith sicrwydd a'r datganiad llywodraethu.

Mae Archwilio Allanol a Mewnol yn darparu ffynonellau sicrwydd pwysig i PASRCC a'r Swyddog Cyfrifyddu. Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) yw archwilydd allanol y Comisiwn ac fe'i cefnogir yn ei waith gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 cyhoeddodd ACC farn ddiamod ar y datganiadau ariannol ac ni nodwyd unrhyw argymhellion na materion arwyddocaol yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol na'r Llythyr Rheoli a gwblhawyd gan dîm ymgysylltu SAC.

Mae gan y Bwrdd Gweithredol gyfrifoldeb strategol am sicrhau bod Cronfa Prosiect y Comisiwn yn cael ei defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gymeradwyo cynlluniau buddsoddi blynyddol y Comisiwn ac am flaenoriaethu buddsoddiad yn y ffordd orau. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod cynllunio capasiti adnoddau yn cyd-fynd â nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn ac yn darparu llywodraethu a sicrwydd i brosiectau newid sylweddol.

Mae'r Tîm Arwain yn gorff cynghori i'r Bwrdd Gweithredol ac yn alluogwr ar gyfer cyflawni cynlluniau gweithredol yn effeithiol. Mae'n gweithredu ar y cyd er budd corfforaethol y Comisiwn.

Archwiliwyd rheolaeth gyllidebol yn ystod 2018. Yn ôl yr adroddiad:

- mae dirprwyaethau priodol ar waith ar gyfer deiliaid cyllideb;
- mae rheolaethau priodol ar waith ar gyfer caffael;

- mae rheolaethau priodol ar waith ar gyfer rheoli'r defnydd o gardiau prynu;
- mae lefel uchel o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd rheolaeth ariannol yn y sefydliad.

Mae'r tîm Gwasanaethau Ariannol yn gweithio i sicrhau ei fod yn cyflawni nifer o dargedau ac yn adrodd ar ei berfformiad yn rhan o Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol y Comisiwn. Mae'r targedau hyn yn fodd o roi pwyslais ac maent yn sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro'n rheolaidd ac y cynhelir ymgysylltiad rhwng y tîm cyllid a'r sefydliad ehangach. Mae'r tîm cyllid wedi llwyddo'n gyson i gyrraedd y targedau o ran meysydd talu cyflenwyr ac Aelodau a thargedau arbedion gwerth am arian.

Mae'r Comisiwn wedi cwblhau adolygiad o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol presennol (adolygwyd diwethaf yn 2014) a chytunwyd ar ddull newydd. Adroddir ar gyfres newydd o fesurau strategol o berfformiad corfforaethol cyffredinol, sydd â chysylltiad agos â nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn. Bydd y rhain yn ddangosyddion sefydlog ar gyfer gweddill y Pumed Cynulliad o leiaf.

Yn ogystal â hyn, adroddir ar gyfres o fesurau sy'n 'ymestyn' er mwyn datblygu perfformiad mewn meysydd a nodwyd ar gyfer gwella perfformiad. Adolygir y gyfres hon o ddangosyddion yn flynyddol. Adroddir ar y dull newydd hwn y flwyddyn nesaf yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20.

# 6. Penderfyniad y Bwrdd Taliadau

Y Bwrdd Taliadau yw'r corff annibynnol sy'n pennu cyflog a thâl cydnabyddiaeth yr Aelodau a'u staff a'r system cymorth ariannol sydd ei hangen ar Aelodau i gyflawni eu cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr etholedig.

Mae Penderfyniad y Bwrdd Taliadau yn darparu cyllid i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â bod yn Aelod a / neu'n Ddeiliad Swydd, er enghraifft:

- rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;
- cyflogau a threuliau teithio eu staff cymorth;
- llety preswyl yng Nghaerdydd ar gyfer Aelodau y mae eu cartref bellter sylweddol o'r Senedd (mae meini prawf cymhwysedd yn berthnasol); a
- chymorth i'r Grwpiau Plaid ac ymchwil polisi.

Ar ddechrau'r Cynulliad hwn, pennwyd cyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad ar £64,000, i'w uwchraddio bob blwyddyn yn unol ag enillion cyfartalog yng Nghymru fel y'i mesurir yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Cynyddwyd cyflogau Aelodau'r Cynulliad 2.3% yn 2018-19 ac eto 1.2% yn 2019-20. Tybiwyd bod cynnydd o 2.0% y flwyddyn yn berthnasol ar gyfer blwyddyn olaf y Cynulliad hwn. Telir cyflogau ychwanegol i Aelodau sy'n dal swyddi sydd â chyfrifoldebau ychwanegol sylweddol, megis Gweinidogion, Comisiynwyr, y Llywydd a chadeiryddion pwyllgorau.

Ar ddechrau'r Cynulliad, rhoddodd y Bwrdd Taliadau gyllid ar waith (hyd at £95,000 yr Aelod y flwyddyn) i Aelodau gyflogi hyd at dri aelod o staff cyfwerth ag amser llawn (hyd at 111 awr yr wythnos) i'w cynorthwyo ym mhob agwedd ar eu swydd. Cynyddwyd hyn 2.3% yn 2018-19 ac eto 1.2% yn 2019-20. Tybiwyd bod cynnydd o 2.0% y flwyddyn yn berthnasol ar gyfer blwyddyn olaf y Cynulliad hwn. Yn 2018, dilëwyd y terfyn o 111 awr ar nifer yr oriau y caiff Aelodau gyflogi ei staff.

Cwblhaodd y Bwrdd Taliadau ei adolygiad o'r cymorth a ddarperir i Aelodau a Phartïon Gwleidyddol yn ystod 2019. Yn ogystal â newidiadau blaenorol o ran cyfrifo'r gyllideb staffio ar sail cost wirioneddol, a chyflwyno mwy o hyblygrwydd o ran sut y mae Aelodau a Phleidiau Gwleidyddol yn gwario cyllidebau, mae'r Bwrdd wedi cytuno hefyd y bydd cyflogau staff cymorth yn cael eu haddasu'n

awtomatig ym mis Ebrill bob blwyddyn gan y newid ym mynegai yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion.

Mae lefel trosiant / newid staff (h.y. y gyllideb a ryddhawyd oherwydd swyddi gwag staff) wedi cynyddu i £1  miliwn i adlewyrchu'r ffaith ei bod yn annhebygol y bydd lefelau staffio yn cael eu cynnal ar yr un lefelau ag yn ystod gweddill cyfnod y Cynulliad, ym mlwyddyn olaf y Cynulliad.

Mae'r Bwrdd Taliadau bellach yn cynnal adolygiad o'i Benderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad a disgwylir iddo ddod â'i drafodaethau i ben yn 2020. Ni ddisgwylir y bydd newidiadau ychwanegol o ganlyniad i'r adolygiad hwn sy'n effeithio ar gyfnod cyllideb 2020-21 gan fod y penderfyniadau y mae'n rhaid i'r Bwrdd eu gwneud yn canolbwyntio'n bennaf ar y Chweched Cynulliad.

Mae'r Bwrdd yn adolygu elfennau eraill o'i Benderfyniad yn flynyddol neu'n gyfnodol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol.  Mae cyllidebau Gwariant Costau Swyddfa a Llety Preswyl yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u haddasu yn ôl yr angen.  At ddibenion darparu ffigurau dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod, rhagdybiwyd codiad chwyddiant yn unig.

Dangosir y gyllideb i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer 2020-21 a dwy flynedd gyntaf y Chweched Cynulliad yn Nhabl 9.  Ar hyn o bryd dangosir y rhain gyda chodiadau chwyddiant yn unig gan y bydd Bwrdd Taliadau newydd yn cael ei recriwtio yn ystod 2020-21 a fydd wedyn yn gosod y telerau ar gyfer y cyfnod..

# 7. Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20.13 y Cynulliad Cenedlaethol i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb Flynyddol sy'n ofynnol yn ôl Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys gofynion Comisiwn y Cynulliad o ran adnoddau ac arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020.

Bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Cynulliad. Mae'r cynnig yn cynnwys yr incwm uchaf (neu'r adnoddau cronni) y gellir eu cadw i'w defnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion hynny yn lle cael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd hefyd yn nodi'r swm arian parod y bydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru i ysgwyddo'r symiau net disgwyliedig sy'n ddyledus i'w talu gan y Comisiwn.

Nodir Cyllideb 2020-21 ar gyfer Comisiwn y Cynulliad, er mwyn mynd i'r afael â'r gofynion hyn yn Nhabl 1.

*Tabl 1: Cyllideb 2020-21 ar gyfer Comisiwn y Cynulliad o'i chymharu â'r gofynion*

| Gofynion Comisiwn y Cynulliad | 2020-21<br>£'000 |
|---|---|
| Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Comisiwn') ar gostau adnodd a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gynorthwyo Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad'); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau yn gysylltiedig â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu swyddogaethau'r Comisiwn.<br><br>Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan y Comisiwn mewn cysylltiad â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant yn gysylltiedig â darpariaeth Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. | £61,052<br>Tabl 2 |
| Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'i defnyddio gan y Comisiwn i waredu asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall, i'w defnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog, incwm rhent, rhoddion, grantiau, sieciau, ail-daliadau ac incwm o werthiannau masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd neu eraill, i'w defnyddio ar gyfer costau gweinyddol y Cynulliad. | £220<br>Tabl 8 |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn yn gysylltiedig â'r gwasanaethau a'r dibenion uchod heb gynnwys y derbyniadau disgwyliedig y gellir eu cadw a'r TAW y gellir ei adennill. | £55,716<br>Tabl 3 |

# Atodiad 1: Trosolwg o'r gyllideb

*Tabl 2: Trosolwg o'r gyllideb*

| Pennawd y Gyllideb | 2019-20* £'000 | 2020-21 £'000 | 2020-21 £'000 | 2021-22 £'000 | 2022-23 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant sy'n Gysylltiedig â'r Comisiwn** | | **Cyn IFRS 16** | **IFRS 16** | **IFRS 16** | **IFRS 16** |
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig (Tabl 4) | £24,749 | £25,358 | £25,358 | £26,051 | £26,757 |
| Llety a chyfleusterau (Tabl 5) | £7,525 | £7,727 | £4,952 | £4,999 | £5,047 |
| Costau TGCh (Tabl 6) | £2,220 | £2,310 | £2,310 | £2,310 | £2,310 |
| Costau eraill (Tabl 7) | £2,267 | £2,363 | £2,359 | £2,344 | £2,359 |
| **Cyfanswm Gwariant Refeniw** | **£36,761** | **£37,758** | **£34,979** | **£35,704** | **£36,473** |
| Cyfanswm yr Incwm (Tabl 8) | (£220) | (£220) | (£220) | (£220) | (£220) |
| Gwariant Cyfalaf - creu asedau sefydlog | £500 | £500 | £500 | £500 | £500 |
| **Cyfanswm yr Arian Gweithredol** | **£37,041** | **£38,038** | **£35,259** | **£35,984** | **£36,753** |
| Cronfa Prosiect | £1,000 | £1,015 | £1,015 | £1,055 | £1,076 |
| **Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn ac eithrio Dibrisiant a thaliadau llog** | **£38,041** | **£39,053** | **£36,274** | **£37,039** | **£37,829** |
| Taliadau llog | - | - | £1,850 | £1,830 | £1,815 |
| Costau dibrisiant ac amorteiddiad | £2,250 | £2,250 | £5,015 | £5,015 | £5,015 |
| **Cyfanswm Gwariant sy'n Gysylltiedig â'r Comisiwn** | **£40,291** | **£41,303** | **£43,139** | **£43,884** | **£44,659** |
| **Gwariant sy'n Gysylltiedig â'r Aelodau** | | | | | |
| Cyflogau'r Aelodau a'r costau cysylltiedig (Tabl 9) | £16,197 | £15,813 | £15,813 | £16,146 | £16,986 |
| Gwariant yn ymwneud ag etholiadau | £0 | £500 | £500 | £2,500 | £0 |
| Costau cyllid pensiwn yr Aelodau | £1,500 | £1,600 | £1,600 | £1,500 | £1,500 |
| **Cyfanswm y Gwariant sy'n Gysylltiedig â'r Aelodau** | **£17,697** | **£17,913** | **£17,913** | **£20,146** | **£18,486** |
| **Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn** | **£57,988** | **£59,216** | **£61,052** | **£64,030** | **£63,145** |

*Mae ffigurau 2019-20 yn cynnwys y gyllideb atodol gyntaf

## Cysoni'r gofyniad newydd am adnoddau â'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

***Tabl 3: Gofyniad arian parod net***

| **Gofyniad Arian Parod Net** | **2019-20* £'000** | **2020-21 £'000** | **2020-21 £'000** |
|---|---|---|---|
| | | **Cyn IFRS 16** | **IFRS 16** |
| Gofyniad refeniw net yr Aelodau | £16,197 | £15,813 | £15,813 |
| Gwariant yn ymwneud ag Etholiadau | £0 | £500 | £500 |
| Gofyniad refeniw net y Comisiwn | £39,791 | £40,803 | £42,639 |
| Gofyniad cyfalaf net | £500 | £500 | £500 |
| Gwariant Blynyddol a Reolir | £1,500 | £1,600 | £1,600 |
| **Is-gyfanswm** | **£57,988** | **£59,216** | **£61,052** |
| **Addasiadau** | | | |
| Dibrisiant | (£2,250) | (£2,250) | (£5,015) |
| Newidiadau yn y darpariaethau | (£1,500) | (£1,600) | (£1,600) |
| Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr | £350 | £350 | £1,279 |
| **Is-gyfanswm** | **(£3,400)** | **(£3,500)** | **(£5,336)** |
| **Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru** | **£54,588** | **£55,716** | **£55,716** |

*Mae ffigurau 2019-20 yn cynnwys y gyllideb atodol gyntaf

# Atodiad 2: Manylion y Gyllideb

*Tabl 4: Dadansoddiad o gyflogau Staff a chostau cysylltiedig*

| | 2019-20 £000 | 2020-21 £000 | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 | 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyn IFRS 16** | **IFRS 16** | | |
| Sefydliad Staff | £25,249 | £26,358 | £26,358 | £27,051 | £27,757 |
| Darpariaeth Swydd Wag / Trosiant | (£500) | (£1,000) | (£1,000) | (£1,000) | (£1,000) |
| **Cyfanswm** | **£24,749** | **£25,358** | **£25,358** | **£26,051** | **£26,757** |

*Tabl 5: Dadansoddiad o Lety a Chyfleusterau*

| | 2019-20 £000 | 2020-21 £000 | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 | 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyn IFRS 16** | **IFRS 16** | | |
| Rhent ac ardrethi gan gynnwys lle parcio | £4,265 | £4,255 | £1,495 | £1,495 | £1,495 |
| Cynnal a chadw a gwaith | £980 | £980 | £980 | £980 | £980 |
| Diogelwch | £691 | £793 | £793 | £812 | £831 |
| Cyfleustodau | £550 | £570 | £570 | £581 | £592 |
| Glanhau | £488 | £533 | £533 | £543 | £553 |
| Arlwyo | £346 | £391 | £391 | £398 | £406 |
| Rhentu llungopïwr | £145 | £145 | £130 | £130 | £130 |
| Dodrefn a gosodiadau | £60 | £60 | £60 | £60 | £60 |
| **Cyfanswm** | **£7,525** | **£7,727** | **£4,952** | **£4,999** | **£5,047** |

*Tabl 6: Dadansoddiad o Gostau TGCh*

| | 2019-20 £000 | 2020-21 £000 | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 | 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyn IFRS 16** | **IFRS 16** | | |
| Gwasanaethau ar gontract allanol, gan gynnwys ffôn | £528 | £519 | £519 | £519 | £519 |
| Darlledu | £580 | £643 | £643 | £643 | £643 |
| Trwyddedau a chynnal a chadw | £1,012 | £1,033 | £1,033 | £1,033 | £1,033 |
| Refeniw a nwyddau traul | £100 | £115 | £115 | £115 | £115 |
| **Cyfanswm** | **£2,220** | **£2,310** | **£2,310** | **£2,310** | **£2,310** |

*Tabl 7: Dadansoddiad o Gostau Eraill*

| | 2019-20 £000 | 2020-21 £000 | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 | 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyn IFRS 16** | **IFRS 16** | | |
| Hyfforddi a datblygu | £344 | £355 | £355 | £355 | £355 |
| Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth | £311 | £333 | £333 | £318 | £333 |
| Gwasanaethau iaith ar gontract allanol | £260 | £300 | £300 | £300 | £300 |
| Argraffu, deunydd ysgrifennu a thâl postio | £242 | £242 | £242 | £242 | £242 |
| Costau eraill Adnoddau Dynol | £153 | £166 | £166 | £166 | £166 |
| Costau teithio a chynhaliaeth staff | £144 | £144 | £144 | £144 | £144 |
| Cyhoeddiadau | £127 | £127 | £127 | £127 | £127 |
| Teithio a chynhaliaeth arall | £115 | £115 | £115 | £115 | £115 |
| Costau yswiriant a chyfreithiol | £113 | £147 | £147 | £147 | £147 |
| Archwilio | £75 | £75 | £75 | £75 | £75 |
| Costau cysylltiedig â'r Bwrdd Taliadau | £62 | £62 | £62 | £62 | £62 |
| Lletygarwch | £48 | £48 | £48 | £48 | £48 |
| Cyngor arbenigol | £48 | £51 | £51 | £51 | £51 |
| Ymgysylltu Academaidd | £40 | £40 | £40 | £40 | £40 |
| Gwasanaethau ariannol a chyfrifyddu | £36 | £21 | £21 | £21 | £21 |
| Ymgynghori | £30 | £30 | £30 | £30 | £30 |
| Fetio | £17 | £17 | £17 | £17 | £17 |
| Gwisgoedd a dillad | £15 | £15 | £15 | £15 | £15 |
| Eitemau eraill <£20,000 | £87 | £75 | £71 | £71 | £71 |
| **Cyfanswm** | **£2,267** | **£2,363** | **£2,359** | **£2,344** | **£2,359** |

*Tabl 8: Dadansoddiad o 'Incwm'*

| | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | 2020-21 £'000 | 2021-22 £'000 | 2022-23 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyn IFRS 16** | **IFRS 16** | | |
| Gwerthiant – Siop y Cynulliad | £30 | £20 | £20 | £20 | £20 |
| Llety – incwm rhentu | £60 | £58 | £58 | £58 | £58 |
| Incwm maes parcio ac incwm arall | £130 | £142 | £142 | £142 | £142 |
| **Cyfanswm** | **£220** | **£220** | **£220** | **£220** | **£220** |

*Tabl 9: Dadansoddiad o 'gyflogau Aelodau a chostau cysylltiedig'*

| | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | 2020-21 £'000 | 2021-22 £'000 | 2022-23 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyn IFRS 16** | **IFRS 16** | | |
| Cyflogau ac argostau Aelodau'r Cynulliad | £6,320 | £6,393 | £6,393 | £6,521 | £6,651 |
| Cyflogau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad ac argostau | £8,568 | £8,589 | £8,589 | £8,761 | £8,936 |
| Lwfansau a Chostau Swyddfa | £1,809 | £1,831 | £1,831 | £1,864 | £1,899 |
| Darpariaeth Swyddi Gwag / Trosiant | (£500) | (£1,000) | (£1,000) | (£1,000) | (£500) |
| **Cyfanswm** | **£16,197** | **£15,813** | **£15,813** | **£16,146** | **£16,986** |

# Atodiad 3: Prosiectau

*Tabl 10: Prosiectau â blaenoriaeth ar gyfer 2020-21*

| Cronfa Prosiect 2020-21 | Swm £'000 |
|---|---|
| **Meddalwedd Mainc Gwaith Deddfwriaethol** | £600 |
| **Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) Comisiwn y Cynulliad – Newid Enw** | £45 |
| **Archifo** | £65 |
| **Cyfarfod Llawn a Deisebau** | £50 |
| **Gwefan** | £80 |
| **Gweithgareddau Ymgysylltu ac Allgymorth** | £250 |
| **Ffenestri newydd – adolygiad dichonoldeb** | £50 |
| **Drysau tân newydd** | £80 |
| **Diogelwch Ffisegol – prosiect oedi – Senedd** | £225 |
| **Diogelwch Ffisegol - prosiect oedi - Tŷ Hywel** | £70 |
| **Cyfanswm** | **£1,515** |